# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 18 Mawrth 2019

Amser: 13.15 - 16.27

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5272

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Tystion: | Joe Teape, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>Richard Archer, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>Steve Curry, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>Lisa Dunsford, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>Dr Sherard Lemaitre, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Stephen Lisle<br>Mike Usher |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil Hamilton AC ac Adam Price AC. Ni chafwyd dirprwyon.

## 2 Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Sesiwn dystiolaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

2.1 Clywodd yr aelodau dystiolaeth gan Joe Teape, y Dirprwy Brif Weithredwr a Richard Archer, Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, fel rhan o'r ymchwiliad i wasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau.

## 3 Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Sesiwn Dystiolaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

3.1 Clywodd yr aelodau dystiolaeth gan Steve Curry, y Prif Swyddog Gweithredu; Lisa Dunsford, Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol, a Dr Sherard Lemaitre, Meddyg Teulu o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, fel rhan o'r ymchwiliad i wasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau.

3.2 Cytunodd Steve Curry i anfon rhagor o wybodaeth am y materion a ganlyn:

- Nifer yr achosion lle mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi talu cyfraddau uwch i feddygon teulu wneud sifftiau y tu allan i oriau ar fyr rybudd yn ystod y deuddeg mis diwethaf
- Nifer yr hawliadau iawndal a dalwyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon a oedd yn ymwneud â chwynion yn erbyn y gwasanaeth y tu allan i oriau

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr aelodau'r dystiolaeth a gafwyd.